# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 2 Chwefror 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant
8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**C6 David Lloyd:** Sut y bydd yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn sicrhau bod technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion yn addas ar gyfer anghenion plant Cymru? (OAQ3264)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ganolog i ymgyrch y Cynulliad i godi safonau mewn ysgolion a hynny fel pwnc cwricwlwm ac fel arf ar gyfer dysgu ac addysgu.

Er mwyn cynnal y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion, mae tua £12 miliwn ar gael i awdurdodau addysg lleol ers 1998 er mwyn iddynt gael prynu offer cyfrifiadurol, gwasanaethau rhyngrwyd a hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i athrawon a staff eraill mewn ysgolion. Dyrannwyd £7 miliwn pellach dros dro i'r diben hwn yn 2000-01, yn amodol ar gadarnhau'r gyllideb fanwl am 2000-01 gan y Cynulliad. Oddi mewn i fframwaith strategol eang a osodwyd gan y Cynulliad, mae penderfyniadau ynghylch sut orau i ddefnyddio'r arian hwn wedi eu dirprwyo i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion i'w galluogi i gymryd anghenion ac amgylchiadau lleol i ystyriaeth. Yr ydym hefyd yn cefnogi nifer o brosiectau dan arweiniad awdurdodau addysg lleol i ddatblygu a phrofi dulliau arloesol o ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn dysgu ac addysgu. Bydd athrawon a llyfrgellwyr ysgol yn elwa ar hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a noddir gan y loteri—gwerth £12.5 miliwn yng Nghymru—a reolir gan y gronfa cyfleoedd newydd.

### Ieithoedd Tramor Modern

**C7 Jocelyn Davies:** Sut y mae Rosemary Butler yn bwriadu codi statws ieithoedd tramor modern mewn ysgolion yng Nghymru? (OAQ3270)

**Rosemary Butler:** Fel rhan o'm hymrwymiad i hybu safonau addysg yng Nghymru, cyhoeddais yn Nhachwedd y llynedd y bydd y Cynulliad yn darparu £100,000 dros y ddwy flynedd nesaf i ariannu prosiect o'r enw Iaith ar Waith. Mae'r prosiect yn ceisio cynyddu nifer y disgyblion sydd yn dewis ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4, drwy argyhoeddi disgyblion, athrawon, prifathrawon, llywodraethwyr a rhieni o'r atyniadau, y cyfleoedd a'r manteision a gynigir drwy barhau i astudio ieithoedd tramor. Ymrwymais hefyd i sicrhau bod gennym gyflenwad digonol o athrawon i gynnal yr ymgyrch hon. Yn Rhagfyr, cyhoeddais gynllun bwrsari a ddyfeisiwyd er mwyn cymell mwy o raddedigion iaith i weithio a hyfforddi fel athrawon. Cyflwynir y bwrsarïau hyn o £5,000 o Fedi 2000.

## Coleg Arweinyddiaeth (Penaethiaid a Rheolwyr Hŷn)

**C8 Peter Black:** A oes unrhyw gynlluniau gan Rosemary Butler i sefydlu coleg arweinyddiaeth i Gymru ar gyfer hyfforddi penaethiaid a rheolwyr hŷn? (OAQ3231) [R]

**Rosemary Butler:** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU sefydlu Coleg Arweinyddiaeth Ysgol Cenedlaethol yn Hydref 1998. Rhoddwyd ar ddeall yn y Papur Gwyrdd i Gymru 'Y Gorau ar gyfer Addysgu a Dysgu' y byddai Cymru, yn amodol ar farn y Cynulliad, yn gysylltiedig â sefydlu'r coleg. Bydd union natur y berthynas hon yn cael ei phenderfynu dros y misoedd sydd i ddod.

## Effaith ETAP (Ysgolion Cefn Gwlad Cymru)

**C9 Rhodri Glyn Thomas:** A all Rosemary Butler wneud datganiad ynghylch effaith y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant (ETAP) ar ysgolion yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ3271)

**Rosemary Butler:** Bydd cynigion y cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant yn ei gwneud yn bosibl cynllunio a darparu ar y lefel leol drwy Gonsortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant. Disgwyliaf i'r partneriaethau hyn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 lleol, sydd yn cynnwys dosbarthiadau chwech awdurdodau addysg lleol, gymryd camau cadarnhaol sydd yn hybu dewis a chyfleoedd ehangach i ddisgyblion a myfyrwyr mewn cymunedau gwledig.

## Prydau Bwyd Mewn Ysgolion

**C10 David Davies:** Pa bwerau sydd gan Rosemary Butler i ddylanwadu ar gynnwys prydau bwyd mewn ysgolion? (OAQ3244)

**Rosemary Butler:** O dan adran 114 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac yn rhinwedd y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, gall y Cynulliad wneud rheoliadau sydd yn rhagnodi safonau maethol neu ofynion maethol eraill ar gyfer ciniawau a ddarperir i ddisgyblion a gofrestrwyd mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol. Bwriadaf gyhoeddi rheoliadau drafft ar gyfer ymgynghori yn ddiweddarach eleni.

## Y Fframwaith Rheoli Perfformiad

**C11 Huw Lewis:** Pa effaith fydd gan y fframwaith rheoli perfformiad arfaethedig ar gadw athrawon o safon yn ystafelloedd dosbarth ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig iawn? (OAQ3238)

**Rosemary Butler:** Dylai'r fframwaith rheoli perfformiad fod yn gymorth i athrawon wella eu heffeithiolrwydd eu hunain er eu lles eu hunain ac er lles y plant a ddysgant. Cynigia weithdrefn eglur i asesu perfformiad athrawon mewn perthynas â blaenoriaethau ac amcanion a gytunwyd, ac i'w gysylltu ag anghenion datblygu.

Mae tâl athrawon yn gyfrifoldeb statudol i'r Adran Addysg a Chyflogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cynigion a gyflwynwyd i gorff adolygu'r athrawon ysgol gan yr Adran honno'n cynnwys strwythur newydd ar gyfer tâl athrawon ystafelloedd dosbarth, a fyddai'n gwobrwyo'r athrawon sydd yn perfformio orau ledled Cymru am eu hymdrechion ac yn eu cymell i aros yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r cynigion yn seiliedig ar gyfnewid teg: dylai tâl uwch yn y dyfodol gael ei gyfiawnhau drwy berfformiad a chyflawniad. Yr ydym am gael system rheoli perfformiad sydd yn ddigon

cadarn i alluogi athrawon yma i elwa ar raddfeydd tâl uwch a datblygiad ehangach i'w gyrfaoedd ledled Cymru a Lloegr, sydd yn deg ac yn gweddu i'r amgylchiadau yng Nghymru.

### Cwricwlwm Cenedlaethol

**C12 Pauline Jarman:** A all Rosemary Butler ein sicrhau y bydd athrawon yn gallu gweithredu'r cwricwlwm cenedlaethol newydd mewn ffordd sydd yn adlewyrchu gwerthoedd ac anghenion Cymru? (OAQ3273)

**Rosemary Butler:** Gallaf roi'r sicrwydd hwnnw. Mae'n briodol mai'r cwricwlwm a drafodwyd gan y Cynulliad ar 19 Ionawr oedd y cyntaf i'w ddatblygu yng Nghymru a'i lunio i gyfateb i nodweddion ac anghenion penodol addysg yng Nghymru. Yr oeddwn wrth fy modd, er na synnwyd fi, iddo gael croeso mor gynnes gan Aelodau'r Cynulliad ac athrawon ledled Cymru.

Un agwedd newydd ar y cwricwlwm yw ei fod yn tynnu sylw'n benodol at gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsgwricwlaidd gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig. Yn y dyfodol, bydd y cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol a ieithyddol Cymru yn eglurach nag y buont erioed.

### Tymor Ysgol

**C13 Lorraine Barrett:** A yw Rosemary Butler wedi gwneud penderfyniad ar brosiectau peilot yng Nghymru i archwilio manteision blwyddyn bedwar neu bum tymor mewn ysgolion? (OAQ3249)

**Rosemary Butler:** Mae cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau addysg lleol yng Nghymru i bennu dyddiadau tymhorau ysgol. Fel y nodais yn fy ateb ysgrifenedig ar 9 Rhagfyr ar y mater hwn, deallaf fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried adroddiad a gyflwynwyd gan un o'i haelodau ac edrychaf ymlaen at glywed ei gasgliadau. Wrth gwrs, byddai angen ystyried llawer o faterion Cymru gyfan a thrawsffiniol cyn cyflwyno trefniant o'r fath yng Nghymru. Nid oes gennyf fi unrhyw fwriad i sefydlu prosiectau peilot yng Nghymru. Yr wyf yn fodlon i'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 ystyried y mater hwn ymhellach pan fydd amser yn caniatáu.

### Materion Cyfle Cyfartal

**C14 Helen Mary Jones:** A fydd unrhyw gyfle i fonitro dysgu materion cyfle cyfartal? (OAQ3267)

**Rosemary Butler:** Mae lle amlwg i faterion cyfle cyfartal yn y fframwaith ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol a fydd yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion ym Medi. Mae cyfle hefyd i ddatblygu'r thema bwysig hon ym mhob rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru. Bydd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru—ACCAC—yn cynhyrchu arweiniad i ysgolion, gan ddod â chyfleoedd i athrawon ddatblygu'r thema hon at ei gilydd. Nid ydym am fod yn orchmynnol, yr ydym am i ysgolion allu datblygu rhaglenni sydd yn addas i'w hamgylchiadau lleol yn ogystal â'r gymuned ehangach.

Bydd Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant, yn monitro gweithredu'r cwricwlwm cenedlaethol yn ei gyfanrwydd. Bydd Estyn ac ACCAC hefyd yn monitro cyflwyno'r fframwaith newydd ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Byddwn am roi sylw arbennig i'w canfyddiadau o ran materion cyfle cyfartal.

## Ysgolion Arbenigol

**C15 Cynog Dafis:** A all Rosemary Butler ein sicrhau na fydd ysgolion arbenigol yn cael eu cyflwyno yng Nghymru? (OAQ3256)

**Rosemary Butler:** Mae pa un a yw ysgol yn dymuno datblygu hunaniaeth neu arbenigedd penodol—mewn technoleg, ieithoedd, chwaraeon, y celfyddydau neu feysydd eraill—yn fater i'w benderfynu gan ysgolion ar hyn o bryd. Nid oes gennym fwriad i newid y polisi hwn.

## Polisi'r Fframwaith Rheoli Perfformiad

**C16 Pauline Jarman:** A all Rosemary Butler ein sicrhau y bydd polisi'r fframwaith rheoli perfformiad yn sensitif tuag at anghenion Cymru? (OAQ3274)

**Rosemary Butler:** Yr ydym am gael system rheoli perfformiad sydd yn deg ac yn addas i'r amgylchiadau yng Nghymru. Yr ydym hefyd am i bobl wybod bod safonau proffesiynol athrawon yng Nghymru ar arfarnu a datblygu gyda'r rhai gorau. Byddwn yn anelu at gael system rheoli perfformiad sydd yn rhoi cyfleoedd i gymryd i ystyriaeth heriau unigol ac amgylchiadau gwahanol ysgolion, disgyblion ac athrawon.

## Y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant

**C17 Michael German:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i ddatblygu'r gwasanaeth gwybodaeth plant ymhellach yng Nghymru? (OAQ3247)

**Rosemary Butler:** Cyfarfu swyddogion o'r Cynulliad â chynrychiolwyr o Choices in Childcare, Chwarae Teg a Chanolfan Gwybodaeth Plant Wrecsam yn Rhagfyr 1999 i drafod gwasanaethau gwybodaeth plant a safonau ansawdd yng Nghymru. Gofynnodd y swyddogion iddynt ystyried ymhellach a rhoi cyngor ar y dewisiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau gwybodaeth plant yng Nghymru.

Mae partneriaethau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gallu defnyddio'r £1.4 miliwn sydd ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i gynnal datblygiad gwasanaethau gwybodaeth plant lleol os gwelant angen lleol i wneud hynny.

## Problemau Triwantiaeth

**C18 Peter Black:** Pa fesurau y mae Rosemary Butler wedi eu cyflwyno i sicrhau y bydd yr awdurdodau addysg lleol sydd yn dioddef fwyaf oherwydd problemau triwantiaeth yn dysgu oddi wrth arfer gorau mewn mannau eraill? (OAQ3232) [R]

**Rosemary Butler:** Mae Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol 3/99, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', yn cyflwyno cyngor ymarferol i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion ynghylch sut i fynd i'r afael ag anawsterau presenoldeb mewn ysgolion, gwella ymddygiad a disgyblaeth er mwyn lleihau allgáu ac ailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd. Mae copi o'r cylchlythyr yn y Llyfrgell.

O dan gynigion cyllideb y Cynulliad am 2000-01, mae'r rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant—GEST—yn cynnwys £3 miliwn i hybu camau mewn ysgolion i ymdrin â materion presenoldeb ac ymddygiad.

## Technegau Asesu

**C19 Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd ar waith i hyfforddi penaethiaid yn y technegau asesu angenrheidiol ar gyfer asesiadau trothwy a fydd yn rhan o reoli perfformiad? (OAQ3219)

**Rosemary Butler:** Mae'r cyfrifoldeb dros dâl ac amodau athrawon yng Nghymru ac yn Lloegr yn perthyn i'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Mae corff adolygu'r athrawon ysgol wedi cyhoeddi cynigion yr Adran ar gyfer ailstrwythuro tâl athrawon, gan gynnwys cyflwyno trothwy perfformiad. Ni fydd yr asesiadau trothwy yn rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad, y buom yn ymgynghori yn ei gylch ar wahân.

Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi gwneud rhai paratoadau dechreuol ar gyfer gweithredu'r trothwy perfformiad ar sail y cynigion hyn. Yr ydym mewn cysylltiad agos â hi ynghylch trefniadaeth yr asesiadau trothwy yng Nghymru. Dymunwn weld trefniadau addas ar waith yng Nghymru, gan gynnwys hyfforddiant, ond ni phenderfynwyd yn derfynol ynghylch y rhain eto.

## Tâl ar Sail Perfformiad (Sylwadau)

**C20 Glyn Davies:** Pa sylwadau a wnaed i Rosemary Butler gan undebau athrawon ynghylch tâl ar sail perfformiad? (OAQ3252)

**Rosemary Butler:** Mae tâl athrawon yn gyfrifoldeb statudol i'r Adran Addysg a Chyflogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae corff adolygu'r athrawon ysgol newydd gyflwyno ei adroddiad i'r Adran honno ac mae dan ystyriaeth.

Yng Nghymru, ymgynghorasom ynghylch y system rheoli perfformiad newydd i athrawon, a buom yn dadansoddi'r ymatebion i'r papurau ymgynghori a gyhoeddasom. Parheais hefyd i gynnal trafodaethau â'r undebau dysgu a grwpiau cysylltiedig eraill ar y mater hwn.

## Trothwy Cyflogau

**C21 Owen John Thomas:** A wnaiff Rosemary Butler ddatgan pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer asesu athrawon yng Nghymru sydd yn dymuno croesi'r trothwy cyflogau? (OAQ3226)

**Rosemary Butler:** Mae'r cyfrifoldeb dros y tâl a'r amodau i athrawon yng Nghymru ac yn Lloegr yn perthyn i'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Bu corff adolygu'r athrawon ysgol yn ystyried cynigion yr Adran ar gyfer ailstrwythuro tâl athrawon, gan gynnwys cyflwyno trothwy perfformiad.

Bydd y safonau trothwy wedi eu goleuo gan ymchwil a gyflawnwyd dros yr Adran Addysg a Chyflogaeth gan yr ymgynghorwyr rheolaeth Hay/McBer i nodweddion addysgu effeithiol. Maent dan ystyriaeth ar hyn o bryd a bydd manylion ar gael cyn hir.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Potensial Addysgu a Dysgu)

**C22 Ann Jones:** Pa fesurau y mae Rosemary Butler yn eu cymryd i sicrhau bod ysgolion yng Nghymru yn gallu gwneud defnydd llawn o botensial addysgu a dysgu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu? (OAQ3254)

**Rosemary Butler:** Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn nodwedd ganolog yn rhaglen y Llywodraeth i godi safonau mewn ysgolion. Dros y ddwy flynedd diwethaf, darparwyd tua £12 miliwn i ysgolion lleol drwy'r rhaglen grantiau cynnal addysg a

hyfforddiant—GEST—i helpu ysgolion i gael offer a hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a chlustnodwyd £7 miliwn pellach am y tro i'r diben hwn y flwyddyn nesaf. Fel rhan o'r rhaglen hon, yr ydym yn cefnogi prosiectau ledled Cymru i ddatblygu a phrofi dulliau arloesol o ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn gwella perfformiad ysgolion. Mae athrawon a llyfrgellwyr ysgol yng Nghymru yn elwa o'n cyfran ni o £12.5 miliwn o'r hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a noddir gan y loteri o'r gronfa cyfleoedd newydd.

Yr ydym hefyd wedi dyrannu £18 miliwn dros dro o'r gronfa cyfalaf moderneiddio (y mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn ariannu'r cynlluniau hyn ohoni) er mwyn cynnal strategaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn addysg dros y tair blynedd nesaf. Yr ydym am ddefnyddio'r arian hwn yn y modd mwyaf effeithiol wrth gynnal dysgu gydol oes a darparu mynediad i dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddisgyblion ysgol a dysgwyr ôl-16 nad yw cyfrifiaduron ar gael iddynt gartref. Cyhoeddais ar 21 Rhagfyr ein bod yn defnyddio'r dafell gyntaf o arian—£2.25 miliwn—i brynu cyfrifiaduron arffed a gwasanaethau rhyngrwyd i benaethiaid ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd sydd yn cymryd rhan mewn prosiect rhifogrwydd newydd, yn ogystal â seilwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i'r sefydliadau diwylliannol cenedlaethol. Cyhoeddir cynigion ar gyfer y ddwy flynedd nesaf cyn hir.

## Datblygu Cynaliadwy

**C23 Rhodri Glyn Thomas:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i alw 'panel o arbenigwyr' ynghyd a all roi cyngor i ysgolion ynghylch y dulliau gorau o ddysgu datblygu cynaliadwy i ddisgyblion yng Nghymru? (OAQ3272)

**Rosemary Butler:** Nid oes gennyf fwriad i alw panel o'r fath ynghyd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd thema datblygu cynaliadwy yn cael ei chyflwyno i'r rhaglen astudiaeth ar gyfer daearyddiaeth—fel rhan o'r Cwricwlwm Cymru 2000 newydd—a bydd yn rhan o'r fframwaith ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, a fydd ill dau yn dod i rym ym Medi. Yn ogystal â hynny, mae Cyngor Addysg Amgylcheddol Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch strategaeth addysg amgylcheddol i Gymru.

## Rheoli Perfformiad

**C24 Gareth Jones:** Pa drafodaethau y mae Rosemary Butler wedi eu cael gydag undebau yn ddiweddar ynghylch rheoli perfformiad a materion cysylltiedig ar gyfer ysgolion yng Nghymru? (OAQ3258)

**Rosemary Butler:** Buom yn ymgynghori yng Nghymru ynghylch y system rheoli perfformiad newydd i athrawon, ac yn dadansoddi'r ymatebion i'r papurau ymgynghori a gyhoeddasom. Parheais hefyd i gynnal trafodaethau â'r undebau dysgu a grwpiau cysylltiedig eraill ar y mater hwn.

## Gwasanaethau Cyn-ysgol

**C25 David Lloyd:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i sicrhau bod gwasanaethau cyn-ysgol i blant yn addas ar gyfer cymunedau yng Nghymru? (OAQ3263)

**Rosemary Butler:** Dylai gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant cyn-ysgol eisoes adlewyrchu anghenion y cymunedau a wasanaethant.

Yr oedd yr arweiniad i bartneriaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant lleol a gyhoeddwyd y llynedd wedi ei fwriadu i helpu partneriaethau i ddatblygu strategaethau gofal plant lleol ac i barhau â'u gwaith yn addysg y blynyddoedd cynnar. Anogwyd y partneriaethau hyn i

ddatblygu cynlluniau sydd yn hybu ymagwedd integredig at gynllunio a chyflenwi addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant ac fe'u penderfynir yn ôl anghenion a dyheadau'r cymunedau lleol.

Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 yn ystyried patrwm presennol y ddarpariaeth addysgol i rai tair blwydd oed er mwyn asesu a fyddai ei hehangu o fudd addysgol a datblygiadol i blant o'r fath, ac effaith unrhyw ehangu o'r fath ar allu grwpiau chwarae a darparwyr preifat i gyflenwi gofal plant i blant sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.

### Cyllid GEST

**C26 Janet Davies:** A yw Rosemary Butler wedi cael unrhyw drafodaethau gydag awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch cyllid Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST)? (OAQ3265)

**Rosemary Butler:** Rhoddwyd Cylchlythyr Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant drafft am 2000-01 i awdurdodau addysg lleol ac eraill ar gyfer ymgynghori ar 12 Tachwedd 1999. Cyfarfu fy swyddogion â chynrychiolwyr o'r awdurdodau addysg lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ac Estyn i drafod y rhaglen yn fanwl ar 14 Rhagfyr. Cyhoeddwyd cylchlythyr terfynol yng ngoleuni'r ymgynghoriadau hynny. Cyflwynwyd ceisiadau o dan y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i'r Cynulliad ac i Estyn erbyn 31 Ionawr, ac maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

### Swyddi Gwag ar gyfer Llywodraethwyr

**C27 Geraint Davies:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i sicrhau na fyddwn yn gweld nifer helaeth o swyddi gwag ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion yng Nghymru? (OAQ3251) [R]

**Rosemary Butler:** O ganlyniad i'r fframwaith ysgolion newydd a weithredwyd ym Medi 1999, bu'n rhaid i awdurdodau addysg lleol recriwtio nifer fawr o lywodraethwyr ysgol newydd. Darparwyd deunyddiau recriwtio gan adran addysg y Cynulliad, mewn cydweithrediad â Llywodraethwyr Cymru, i awdurdodau lleol yr haf diwethaf er mwyn helpu yn y broses hon.

Y terfyn amser ar gyfer gweithredu'r holl drefniadau newydd i gyrff llywodraethol oedd 1 Ionawr 2000. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn ceisio gwybodaeth oddi wrth awdurdodau ynghylch swyddi gwag ar gyrff llywodraethol. Yng ngoleuni eu hymatebion, bydd ymgynghori'n digwydd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraethwyr Cymru i benderfynu pa gamau pellach sydd yn angenrheidiol.

### Addysg Cyfrwng Cymraeg

**C28 Owen John Thomas:** Faint o blant bob blwyddyn sydd yn cael eu troi i ffwrdd o dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd nad oes lle iddynt yn yr ysgol Gymraeg leol? (OAQ3220)

**Rosemary Butler:** Ni chedwir yr wybodaeth hon yn ganolog. Yr awdurdod addysg lleol sydd yn gyfrifol am dderbyniadau yn achos ysgolion cymunedol a rhai a reolir yn wirfoddol, a'r corff llywodraethu sydd yn gyfrifol yn achos ysgolion sylfaen a rhai a gynorthwyir yn wirfoddol. Mae pob AALl yn gyfrifol am gynllunio a chyflenwi lleoedd ysgolion. Mae cynlluniau trefnu ysgolion AALlau wrthi'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ar gyfer y Pwyllgor Addysg Cyn-16, a dylai hyn ddangos a yw awdurdodau lleol yn gyffredinol yn gallu cwrdd â'r galw am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ganddynt ddyletswydd statudol i

roi ystyriaeth i'r egwyddor gyffredinol y dylid addysgu disgyblion yn unol â dymuniadau'r rhieni, cyn belled ag y gellir gwneud hynny gan ddarparu addysg effeithiol ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

### Arholiadau Safon Uwch/AS

**C29 Elin Jones:** A fydd unrhyw gyllid ar gael ar gyfer y newidiadau sydd ar y gweill i arholiadau Safon Uwch/AS yng Nghymru? (OAQ3260)

**Rosemary Butler:** Mae'r diwygiadau mewn cymwysterau ôl-16 ar ôl yr ymgynghoriad 'Ennill Cymhwyster i Lwyddo' yn gam pwysig ymlaen wrth hybu ehangder mewn astudiaethau ôl-16 ac wrth sefydlu cydraddoldeb rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Yr oedd ein trafodaethau ag awdurdodau lleol a Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ynghylch eu hanghenion gwario ar gyfer y flwyddyn 2000-01 yn rhoi ystyriaeth i'w hasesiad o'r cyllid ychwanegol sydd yn angenrheidiol i roi'r newidiadau hyn ar waith. Bydd y £106 miliwn ychwanegol ar gyfer gwariant ar addysg a gynhwyswyd gennym yng ngwariant yr awdurdodau lleol a'r cyngor cyllido am y flwyddyn 2000-01 yn fwy na digon i gynnwys chwyddiant mewn tâl a phrisiau ac yn caniatáu i'r awdurdodau gwrdd â'r galw cynyddol a beichiau newydd fel y rhain. Ar ben hynny, gwnaethom ddarpariaeth o fewn y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i gynnal hyfforddiant i athrawon sydd yn codi o'r diwygiadau hyn.

### Y Cwricwlwm Newydd ar ôl 16 oed

**C30 Michael German:** A fydd Rosemary Butler yn darparu cyllid ychwanegol penodol ar gyfer ysgolion a cholegau i dalu cost rhoi'r cwricwlwm newydd ar ôl 16 oed ar waith? (OAQ3248)

**Rosemary Butler:** Mae'r diwygiadau mewn cymwysterau ôl-16 ar ôl yr ymgynghoriad 'Ennill Cymhwyster i Lwyddo' yn gam pwysig ymlaen wrth hybu ehangder mewn astudiaethau ôl-16 ac wrth sefydlu cydraddoldeb rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Yr oedd ein trafodaethau ag awdurdodau lleol a Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ynghylch eu hanghenion gwario ar gyfer y flwyddyn 2000-01 yn rhoi ystyriaeth i'w hasesiad o'r cyllid ychwanegol sydd yn angenrheidiol i roi'r newidiadau hyn ar waith. Bydd y £106 miliwn ychwanegol ar gyfer gwariant ar addysg a gynhwyswyd gennym yng ngwariant yr awdurdodau lleol a'r cyngor cyllido am y flwyddyn 2000-01 yn fwy na digon i gynnwys chwyddiant mewn tâl a phrisiau ac yn caniatáu i'r awdurdodau gwrdd â'r galw cynyddol a beichiau newydd fel y rhain. Ar ben hynny, gwnaethom ddarpariaeth o fewn y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i gynnal hyfforddiant i athrawon sydd yn codi o'r diwygiadau hyn.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Mynediad Agored i Gefn Gwlad

**C7 Jane Davidson:** Pa gamau y gall y Cynulliad eu cymryd i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i fynediad agored i gefn gwlad? (OAQ3229)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau wedi rhoi ar ddeall ein bod yn llwyr gefnogol i fwriad y Llywodraeth i gyflwyno hawl mynediad statudol newydd i gefn gwlad agored ar gyfer cerddwyr. Yr ydym yn falch bod Mesur wedi ei gynnwys yn Araith y Frenhines yn Nhachwedd. Yr ydym mewn cysylltiad agos â'r Llywodraeth ynghylch cynnwys y Mesur a byddwn yn sicrhau, gyhyd ag y

gellir, y caiff ei ddrafftio mewn modd sydd yn caniatáu rhoi ystyriaeth i amgylchiadau yng Nghymru.

### Y Diwydiant Coed

**C8 Elin Jones:** I ba raddau y gall diwydiant coed Cymru gystadlu ar y farchnad ryngwladol? (OAQ3325)

**Christine Gwyther:** Mae'r diwydiannau tyfu coed a phrosesu pren yn wynebu amodau masnachu anodd iawn ar hyn o bryd. Rhaid i goed Cymru gystadlu yn y farchnad yn ôl prisiau'r byd, ac mae prisiau pren y byd wedi bod yn disgyn yn sylweddol iawn dros y ddwy flynedd diwethaf. Hynny oherwydd bod mwy o bren o wledydd y Baltig a Sweden am bris cystadleuol ar gael, cwymp rhai marchnadoedd yn Asia a'r Pasifig, a chryfder cymharol y bunt.

Er hynny, mae gan Gymru ddiwydiant prosesu pren cryf. Mae ein cwmnïau melinau coed mawr yn dal i fuddsoddi yn eu melinau ac i resymoli eu gwaith i sicrhau eu bod yn gystadleuol yn y dyfodol. Bydd mabwysiadu safon coedwigaeth y DU a'r drefn wirfoddol ar gyfer ardystio coedwigoedd Cymru yn rhoi modd i bren o Gymru gystadlu mewn marchnadoedd newydd am bren o goedwigoedd cynaliadwy.

### Atebolrwydd Sefydliadau Coedwigaeth

**C9 Owen John Thomas:** Sut mae Christine Gwyther yn bwriadu cynyddu atebolrwydd y Comisiwn Coedwigaeth, Coed Cymru a Menter Coedwigaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chymunedau lleol? (OAQ3283)

**Christine Gwyther:** Mae'r Comisiwn Coedwigaeth a'i asiantaeth, Menter Coedwigaeth, eisoes yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad am ei weithgareddau yng Nghymru. Mae'r Cynulliad a'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweithio'n agos i sicrhau ei fod yn ymatebol i anghenion y Cynulliad a Chymru'n gyffredinol. Mae Coed Cymru wedi ei ariannu'n rhannol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth, ac mae'n atebol, drwyddynt hwy, i'r Cynulliad.

Yr ydym wedi gwahodd sylwadau'n ddiweddar ar strategaeth goetiroedd newydd i Gymru sydd yn ymchwilio, ymysg pethau eraill, i ddulliau o wneud y Comisiwn a'r sector coedwigaeth preifat yn fwy ymatebol i anghenion cymunedau lleol.

### Ariannu'r Economi Cymdeithasol

**C10 Christine Humphreys:** Pa gamau a gymerwyd ym maes datblygu gwledig i weithredu'r cynnig a basiwyd gan y Cynulliad ar 3 Tachwedd 1999 ar ariannu'r economi cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ3292)

**Christine Gwyther:** Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig drafft, a gafodd ei drafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ar 14 Rhagfyr, yn cydnabod cyfraniad pwysig a chynyddol yr economi gymdeithasol at ddatblygiad yr economi wledig. Bydd un o'r mesurau a gynigir yn y cynllun—addasu a datblygu ardaloedd gwledig—yn rhoi cefnogaeth i fentrau cymunedol a gwirfoddol sydd yn helpu i gynnig atebion cynaliadwy i broblemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardaloedd gwledig yn y Dwyrain.

Yn y Gorllewin, mae dogfen raglennu sengl Amcan 1 yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu cefn gwlad a'r economi gymdeithasol o dan fesurau a gynigir ym mlaenoriaeth 1 (gallu busnesau i gystadlu). Ategir y gefnogaeth i'r economi gymdeithasol o dan flaenoriaeth 3 (adfywio cymunedol).

Ar ôl trafodaethau gyda chynrychiolwyr y sector gwirfoddol, mae grŵp gorchwyl wedi'i sefydlu i ystyried trefniadau presennol y Cynulliad ar gyfer ariannu'r sector gwirfoddol—boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

### Arallgyfeirio gan Ffermydd

**C11 Jenny Randerson:** A fydd yr astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar i arallgyfeirio gan ffermydd yn archwilio manteision ffermio ceirw yng Nghymru? (OAQ3278)

**Christine Gwyther:** Mae'r astudiaeth ar arallgyfeirio gan ffermydd yn ystyried chwe sector allweddol a ddynodwyd drwy'r waith ar y strategaeth bwyd-amaeth yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu. Y sectorau hyn yw: biomàs (i gynnwys coedlannau cylchdro byr); garddwriaeth, yn enwedig cnydau garddwriaethol organig ar raddfa cae; cnydau amgen, yn enwedig cnydau ffibr; dyframaeth—pysgod môr/pysgod cregyn; dyframaeth—pysgodfeydd mewndirol; a chyfleoedd gwerth ychwanegol ar gyfer coetiroedd ar ffermydd.

Ni fwriedir cynnal ymchwiliad i'r cyfle i ddatblygu ffermio ceirw yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae fy swyddogion mewn trafodaeth â ffermwyr ceirw presennol ynghylch y posibiliad o roi cymorth grant i hybu a marchnata eu cynnyrch.

### Taliadau Amaeth-Arianyddol yr UE

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A fyddai Christine Gwyther yn cefnogi ymgyrch yr NFU i sicrhau taliadau amaeth-arianyddol yr Undeb Ewropeaidd fel iawndal i ffermwyr sydd dan anfantais o ganlyniad i werth uchel y bunt? (OAQ3327)

**Christine Gwyther:** Credaf fod gan y diwydiant achos dilys ac yr wyf yn cydymdeimlo â gofidiau ffermwr. Yr wyf wedi ysgrifennu at Nick Brown i ddweud y dylai'r Trysorlys, yn fy marn i, dalu am y swm cyfan y mae'r diwydiant yn gymwys i'w dderbyn.

Mae'n bwysig, fodd bynnag, cofio y byddai gofyn i'r trethdalwr Prydeinig nid yn unig ddod o hyd i 50 y cant o'r iawndal amaeth-arianyddol y mae gofyn i'r aelod wladwriaethau ei dalu ond hefyd (oherwydd effaith cytundeb Fontainebleau ar ad-daliadau'r DU), 71 y cant o'r cyfraniad yr ymddengys ei fod yn dod gan yr UE. Felly, bydd yn rhaid ystyried yn ofalus yr achos dros dalu iawndal amaeth-arianyddol o safbwynt y galw o bob tu am adnoddau domestig.

### Lleihau Straen

**C13 Mick Bates:** Pa gynnydd a wnaed o safbwynt paratoi strategaeth i leihau straen yng nghefn gwlad? (OAQ3303)

**Christine Gwyther:** Bu'r Cynulliad yn gweithio'n agos â'r Sefydliad Iechyd Gwledig a'r Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig i ymdrin â straen yng nghefn gwlad. Yn ddiweddar, cymeradwywyd cyllid gan y Cynulliad ar gyfer astudiaeth dichonoldeb ar yr angen am rwydwaith gwybodaeth straen cefn gwlad yng Nghymru. Mae'n rhy gynnar i roi adroddiad am y cynnydd, ond mae hon yn astudiaeth dri mis a dylai'r canlyniadau fod ar gael yn hwyr yn y gwanwyn.

Bydd yr astudiaeth dichonoldeb yn canfod y sefyllfa bresennol o ran yr adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael; dulliau cyflenwi'r gwasanaeth; pa mor dda yw'r derbyniad i'r gwasanaethau hyn; a pha rwydweithio sydd yn digwydd a pha mor effeithiol ydyw. Ystyrir bod rhwydweithiau o unigolion a mudiadau cydgefnogol yn amddiffyniad holl bwysig rhag effeithiau straen gormodol.

Byddai'r astudiaeth wedyn yn dynodi'r datblygiadau angenrheidiol drwy ddynodi'r diffygion mewn gwasanaethau ac adnoddau; y newidiadau sydd yn angenrheidiol mewn dulliau cyflenwi; y camau angenrheidiol i sefydlu rhwydwaith Cymru gyfan; a meincnod(au) y gellir eu sefydlu er mwyn sicrhau ansawdd gwasanaeth cyson ar hyd a lled yr ardaloedd gwledig.

**Polisi Coedwigaeth**

**C14 Ieuan Wyn Jones:** Ym mha ffyrdd y gall arian Amcan 1 a 2 gael ei ddefnyddio i ddatblygu polisi coedwigaeth cynaliadwy a dichonadwy i Gymru? (OAQ3322)

**Christine Gwyther:** Aethom ati yn ddiweddar i wahodd sylwadau ar strategaeth goetir newydd ar gyfer Cymru a fydd yn sicrhau bod gennym bolisïau dichonadwy a chynaliadwy ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru. Disgwylir y byddwn yn defnyddio arian Amcan 1 a 2 er mwyn cynorthwyo i greu coetir newydd, cynorthwyo i reoli coetir sydd eisoes yn bodoli, ac i geisio datblygu busnesau newydd a fydd yn ychwanegu gwerth i bren caled a phren meddal.

**Allforion Cig Eidion Cymru**

**C15 Ann Jones:** Beth yw'r rhagolygon ar gyfer hyrwyddo allforion cig eidion Cymru ymhellach o ystyried y datblygiadau diweddar? (OAQ3299)

**Christine Gwyther:** Parhawn i weithio'n agos ag Awdurdod Datblygu Cymru, Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf., y Comisiwn Cig a Da Byw, Food from Britain ac eraill i ddatblygu a hybu ymhellach werthiant cig eidion Cymru gartref a thramor. Yn ddiweddar rhoesom groeso i'r cytundeb allforio gwerth £3 miliwn a sicrhaodd Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf. i werthu 350 tunnell fetrig o gig eidion diesgyrn wedi ei frandio o Gymru i'r Iseldiroedd, a gyhoeddwyd ar 11 Ionawr. Bydd Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf. yn hybu ac yn arddangos cig eidion Cymru yn Alimentaria, y ffair fwydydd bwysig nesaf a gynhelir yn Barcelona ym mis Mawrth. Bydd yr arddangosfa fwydydd bwysig hon yn denu prynwyr o bwys o Sbaen ac Ewrop gyfan, a bydd Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf. yn manteisio ar y cyfle i dargedu'r holl ddarpar brynwyr tramor, gan gynnwys gwledydd fel yr Iseldiroedd, yr Eidal, Denmarc, y Ffindir, Gwlad Belg a Sbaen. Fel yr Iseldirwyr, mae'r Sbaenwyr yn mewnforio cig oen o Gymru a chan fod gwaharddiad yr UE ar gig eidion wedi ei godi bellach, adroddir eu bod yn awyddus i samplu cig eidion Cymru. Bydd Alimentaria yn gyfle gwych i gig eidion Cymru ar ôl y safiad cyhoeddus cadarnhaol iawn gan yr Iseldirwyr ynghylch prynu'r cynnyrch.

Yn ogystal â hynny, sefydlwyd grŵp cyswllt allforio cig eidion mewn cydweithrediad â diwydiant i ddatblygu a goruchwylio strategaeth y DU ar allforion cig eidion. Cyflawnir y gwaith hyrwyddo mwyaf gan y Comisiwn Cig a Da Byw, sydd ag arbenigedd yn y maes hwn. Fodd bynnag, yr ydym ni yn y Cynulliad, y Gweinidogion yn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'u swyddogion yn cymryd pob cyfle i egluro'r amddiffyniadau a roesom ar waith ac i hybu cig eidion Prydain dramor.

Mae Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cynulliad mewn trafodaeth â chwmnïau, ffermwyr a mudiadau eraill yng Nghymru gan gynnwys yr undebau a chwmni o Ffrainc ynghylch prosiect ar gyfer cynhyrchu cig llo mewn ffordd ffafriol i les, a allforir yn y pen draw i Ewrop.

Mae'r Cynulliad yn darparu cyllid o dros £3.5 miliwn i ddatblygiadau bwyd-amaeth, gan gynnwys tua £1.8 miliwn i Awdurdod Datblygu Cymru i hybu bwyd.

**Y Diwydiant Moch**

**C16 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i gynorthwyo'r diwydiant moch yng Nghymru? (OAQ3306)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn ymwybodol dros ben o'r problemau yn y diwydiant moch. Mae'r sefyllfa bresennol yn un ddifrifol o hyd i gynhyrchwyr moch, gyda phrisiau sydd yn ansefydlog o hyd ac yn is na'r costau cynhyrchu. Achoswyd y pwysau ar brisiau cynhyrchwyr yn bennaf gan farchnad a orgyflenwyd yn Ewrop ac mewn mannau eraill. Mae hyn wedi ystumio cydbwysedd y farchnad, ac mae cryfder y bunt yn ffactor cyfrannol.

Ni all y Cynulliad gynorthwyo'r sector yn uniongyrchol, gan y byddai cymorth o'r fath yn torri rheolau cymorth gwladol yr Undeb Ewropeaidd. Yr wyf yn dal i fod mewn cysylltiad agos â'm cydweithwyr yn Llywodraeth y DU sydd mewn cyswllt â'r diwydiant a'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn ceisio atebion—sydd yn gyson â chyfraith yr UE—i'r anawsterau presennol. Mae hyn yn cynnwys lobïo'r Comisiwn er mwyn defnyddio'r mecanweithiau ad-daliadau allforio a chymorth storio preifat presennol yn fwyaf effeithiol. Yn y cyfamser, yr ydym yn gwneud popeth a allwn i sicrhau bod adwerthwyr a defnyddwyr y DU yn llwyr werthfawrogi ansawdd ardderchog a safonau lles uchel cig moch a gynhyrchir ym Mhrydain. I'r diben hwn, ysgrifennais yn ddiweddar at yr holl gyrff caffael cyhoeddus yng Nghymru gan eu hannog i roi ystyriaeth i ffactorau ansawdd a lles wrth brynu. Cyn hir, ac fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar labelu bwydydd, bwriadwn dynhau'r arweiniad ar gyfer gorfodi labelu tarddiad gyda golwg ar fynd i'r afael â phroblem labelu camarweiniol.

Yn y cyfamser, bydd safon ansawdd cig Brydeinig y Comisiwn Cig a Da Byw, a ddyfeisiwyd er mwyn gwahaniaethu rhwng cig moch o Brydain a chynnyrch a fewnforiwyd, yn gymorth i roi mantais gystadleuol i'n cig moch ac i annog defnyddwyr i brynu cig moch sydd yn cyrraedd safonau ansawdd a lles Prydeinig, a thrwy hynny'n cryfhau'r farchnad ddomestig.

Cymerwyd camau yn ddiweddar hefyd gan y Llywodraeth ar lefel y DU, a fydd o fantais i gynhyrchwyr moch yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd â'r holl adwerthwyr ac arlwywyr mawr i ofyn iddynt ailddatgan yr ymrwymiad a roesant y llynedd i geisio cig sydd yn cwrdd â safonau Prydeinig; penodi swyddog gwirio i archwilio ansawdd, lles a honiadau am darddiad ar gynhyrchion cig a fewnforiwyd; a chyhoeddi cymorth gwerth £5 miliwn ar gyfer mentrau marchnata, gyda'r bwriad mai'r sector moch a ddylai elwa fwyaf. Mae'r rhain yn gamau breision ymlaen a groesewir gan y diwydiant moch ym Mhrydain.

**Arallgyfeirio (Coed)**

**C17 Phil Williams:** Sut mae Christine Gwyther yn bwriadu annog ffermwyr i arallgyfeirio a chynhyrchu pren o goetiroedd ar eu ffermydd a esgeuluswyd yn flaenorol? (OAQ3285)

**Christine Gwyther:** Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cynnig grantiau i ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i'w hannog i reoli coedwigoedd a esgeuluswyd. Mae'r diwydiant coedwigaeth yn gweithio gyda'r Comisiwn i hyrwyddo'r defnydd gorau o gynhyrchion pren, i wella ansawdd a safonau, ac i gynorthwyo i ddatblygu'r farchnad. Mae'r Comisiwn hefyd wedi annog astudiaeth annibynnol ar economeg prosesu pren caled mewn meintiau bychain i gynhyrchu cynhyrchion gwneuthuredig fel deunydd llorio. Bydd y mentrau hyn yn gymorth i gynyddu'r galw am bren o goetiroedd ar ffermydd, a thrwy hynny'n cymell ffermwyr i gynhyrchu pren ynddynt. Bydd strategaeth goetiroedd Cymru, y gofynasom am sylwadau arni'n ddiweddar, yn ymchwilio i ddulliau o roi anogaeth bellach i ffermwyr.

### Cynllun Premiwm Lladd Newydd

**C18 Peter Rogers:** Pam y penderfynwyd gweinyddu'r cynllun premiwm lladd newydd o swyddfeydd y tu allan i Gymru? (OAQ3301)

**Christine Gwyther:** Rhoesom ystyriaeth ofalus iawn i'r dull gorau o gyflenwi'r cynlluniau newydd sydd yn gysylltiedig â diwygiadau Agenda 2000 yng Nghymru, a bydd y rhan fwyaf yn cael eu gweinyddu gan staff y Cynulliad. Ym Mhrydain Fawr, bydd yr elfen dros 30 mis yn y cynllun premiwm lladd newydd yn cael ei rhedeg gan y Bwrdd Ymyrraeth ar ran pob un o'r tair Adran amaethyddiaeth. Mae'n debyg i'r cynllun dros 30 mis presennol y mae'r Bwrdd yn ei redeg ar hyn o bryd ar ran holl diriogaethau'r DU. Penderfynasom fod manteision ac enillion effeithlonrwydd eglur i'w cael drwy ofyn i'r Bwrdd redeg pob un o dair elfen y cynllun ar ein rhan, gan gynnwys lloi tew dros ac o dan 30 mis.

### Prosiectau Amaethyddol (Amcan 1 a 2)

**C19 Michael German:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i ddynodi prosiectau amaethyddol ar gyfer Amcan 1 a 2? (OAQ3304)

**Christine Gwyther:** Bydd Amcan 1 a 2 yn gweithredu ar sail pecynnau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae trafodaethau partneriaeth helaeth ar y gweill i bennu'r amrediad o becynnau a allai weithredu ar lefel y rhaglen gyfan, er y bydd y trafodaethau ffurfiol yn gyfrifoldeb i bwyllgor monitro'r rhaglen ar ôl cael cytundeb ar y dogfennau rhaglennu sengl.

Lansiwyd rhaglen o drafodaethau anffurfiol rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol yn rhanbarth Amcan 1. Y nod yw canfod cyflwr y cynllunio o fewn pob ardal a'r trefniadau partneriaeth sydd ar waith neu yn yr arfaeth, dynodi amrediad y camau lleol sydd yn debygol o fod yn rhan o becyn lleol, ac ystyried rhyngweithiad pecynnau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Y bwriad yw cwblhau'r rownd drafodaethau hon yn ystod Chwefror.

Rhoddir sylw i amrediad o fesurau ar gyfer amaethyddiaeth. Disgwylir y bydd y Cynulliad yn datblygu'r agweddau Cymru gyfan, fel Tir Gofal a'r cynllun ffermio organig ac y bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn ymwneud â'r sector coedwigaeth. Ynghylch bwyd-amaeth, trafodir cynigion ar gyfer pecyn cenedlaethol gyda chyfarwyddiaeth bwyd Awdurdod Datblygu Cymru yn unol ag amcanion y strategaeth bwyd-amaeth a'r gwaith datblygu sectorol yr ymgymerwyd ag ef. Trafodir agweddau eraill fel rhan o ddatblygiad y strategaeth ar gyfer addasu ac arallgyfeirio ar ffermydd.

### Datblygu Tir Coedwigaeth

**C20 David Davies:** A all Christine Gwyther sicrhau y bydd swyddogion Menter Coedwigaeth yn hysbysu'r Aelod perthnasol yn y Cynulliad yn y dyfodol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch datblygu tir coedwigaeth? (OAQ3298)

**Christine Gwyther:** Mae Menter Coedwigaeth yn adolygu ei pholisïau ar werthu tir coedwigaeth ar gyfer datblygu masnachol. Gofynnais i Fenter Coedwigaeth gynnwys ei gweithdrefnau ymgynghori a chysylltu yn yr adolygiad hwn ac iddi ystyried, yn benodol, pwy y dylid ei hysbysu am gynigion i ddatblygu.

### Y Raddfa Fodwleiddio

**C21 Dafydd Wigley:** A fyddai Christine Gwyther yn cefnogi'r egwyddor o gyfrifo'r raddfa fodwleiddio ar sail unedau llafur? (OAQ3328)

**Christine Gwyther:** Mae anawsterau lu yn gysylltiedig â chyfrifo'r raddfa fodwleiddio ar sail unedau llafur oherwydd mai aelodau'r teulu sydd yn gyfrifol am wneud y rhan fwyaf o'r gwaith ar fferm deuluol Gymreig nodweddiadol. Mae'n anodd dogfennu hyn mewn dull a fyddai'n caniatáu iddo gael ei archwilio yn foddhaol, a gallai ffermwyr mawr sydd yn llogi contractwyr elwa ar draul ffermydd teuluol.

Yr wyf i, ynghyd â thri Gweinidog Amaeth arall y DU, yn cefnogi'r cynigion i fodwleiddio taliadau cymhorthdal uniongyrchol i ffermwyr ar raddfa o 2.5 y cant yn 2001, gan godi i 4.5 y cant erbyn 2005. Yn gyfreithiol, bydd raid i fodwleiddio gael ei weithredu yn gyson ledled y DU, a'r cynigion hyn yw'r unig sail ar gyfer cytundeb rhwng pedair Adran amaeth y DU.

Cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi papur ymgynghori ar y cynigion gan wahodd sylwadau gan bawb sydd â diddordeb yng Nghymru.

### Ffatrïoedd Prosesu Coed

**C22 David Lloyd:** Pa gyfranddaliadau sydd ar gael i gynorthwyo mentrau newydd i sefydlu ffatrïoedd prosesu coed? (OAQ3329)

**Christine Gwyther:** Mae ffatrïoedd y diwydiant coed yn gymwys i gael yr un cymorth â'r hyn sydd ar gael i sectorau diwydiannol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys (yn amodol ar gymhwyster a chymeradwyaeth, fel sydd yn briodol), grantiau cyfalaf cymorth dewisol rhanbarthol drwy'r Cynulliad, grantiau gan awdurdodau unedol, a grant datblygu eiddo Awdurdod Datblygu Cymru. Mae grantiau refeniw ar gael hefyd i helpu datblygiadau arloesol, a hynny drwy'r Cynulliad.

Mae grantiau eraill, llai eu maint ar gael yn ogystal, gan gynnwys grantiau rhaglen gweithredu technoleg Awdurdod Datblygu Cymru, a chymorth drwy Gyswllt Busnes. Mewn rhai achosion, bydd y cymorth sydd ar gael yn amrywio, gan ddibynnu ym mha ardal yng Nghymru y mae'r fenter dan sylw wedi'i leoli.

### Ombwdsman Annibynnol ar gyfer Amaethyddiaeth

**C23 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi eu cael ynghylch creu ombwdsman annibynnol ar gyfer amaethyddiaeth? (OAQ3236)

**Christine Gwyther:** Byddaf yn cyflwyno papur i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 9 Chwefror sydd yn amlinellu fy nghynlluniau ar gyfer ymgynghori ynghylch sefydlu mecanwaith apeliadau annibynnol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru.

### Y Mesur Cefn Gwlad

**C24 Jocelyn Davies:** I ba raddau yr ymgynghorir â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch drafftio'r Mesur Cefn Gwlad? (OAQ3288)

**Christine Gwyther:** Mae'r cyfrifoldeb am ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol newydd yn perthyn i'r Llywodraeth, ond ymgynghorir â mi a'm cydweithwyr yn y Cabinet ar ei gynnwys.

### Y Diwydiant Ffermio Moch (Argyfwng)

**C25 William Graham:** Pa gamau y mae Christine Gwyther yn bwriadu eu cymryd i leihau'r argyfwng yn y diwydiant ffermio moch yng Nghymru? (OAQ3308)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn ymwybodol dros ben o'r problemau yn y diwydiant moch. Mae'r sefyllfa bresennol yn un ddifrifol o hyd i gynhyrchwyr moch, gyda phrisiau sydd yn

ansefydlog o hyd ac yn is na'r costau cynhyrchu. Achoswyd y pwysau ar brisiau cynhyrchwyr yn bennaf gan farchnad a orgyflenwyd yn Ewrop ac mewn mannau eraill. Mae hyn wedi ystumio cydbwysedd y farchnad, ac mae cryfder y bunt yn ffactor cyfrannol.

Ni all y Cynulliad gynorthwyo'r sector yn uniongyrchol, gan y byddai cymorth o'r fath yn torri rheolau cymorth gwladol yr Undeb Ewropeaidd. Yr wyf yn dal i fod mewn cysylltiad agos â'm cydweithwyr yn Llywodraeth y DU sydd mewn cyswllt â'r diwydiant a'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn ceisio atebion—sydd yn gyson â chyfraith yr UE—i'r anawsterau presennol. Mae hyn yn cynnwys lobïo'r Comisiwn er mwyn defnyddio'r mecanweithiau ad-daliadau allforio a chymorth storio preifat presennol yn fwyaf effeithiol. Yn y cyfamser, yr ydym yn gwneud popeth a allwn i sicrhau bod adwerthwyr a defnyddwyr y DU yn llwyr werthfawrogi ansawdd ardderchog a safonau lles uchel cig moch a gynhyrchir ym Mhrydain. I'r diben hwn, ysgrifennais yn ddiweddar at yr holl gyrff caffael cyhoeddus yng Nghymru gan eu hannog i roi ystyriaeth i ffactorau ansawdd a lles wrth brynu. Cyn hir, ac fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar labelu bwydydd, bwriadwn dynhau'r arweiniad ar gyfer gorfodi labelu tarddiad gyda golwg ar fynd i'r afael â phroblem labelu camarweiniol.

Yn y cyfamser, bydd safon ansawdd cig Brydeinig y Comisiwn Cig a Da Byw, a ddyfeisiwyd er mwyn gwahaniaethu rhwng cig moch o Brydain a chynnyrch a fewnforiwyd, yn gymorth i roi mantais gystadleuol i'n cig moch ac i annog defnyddwyr i brynu cig moch sydd yn cyrraedd safonau ansawdd a lles Prydeinig, a thrwy hynny'n cryfhau'r farchnad ddomestig.

### Treialon Cnydau a Addaswyd yn Enetig

**C26 Christine Humphreys:** A oes cynlluniau ar y gweill ar gyfer treialon cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru? (OAQ3293)

**Christine Gwyther:** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw geisiadau yn cael eu hystyried ar gyfer cynnal treialon cnydau sydd wedi'u newid yn enetig yng Nghymru.

### Coetiroedd Cynhenid a Dail Llydan

**C27 Gareth Jones:** Pa dargedau sydd yn bodoli i gynyddu arwynebedd coetiroedd cynhenid a dail llydan yng Nghymru? (OAQ3320)

**Christine Gwyther:** Ein polisi yw annog creu coetiroedd cynhenid â dail llydan yng Nghymru, ac mae grantiau yn bodoli ar gyfer perchnogion sydd yn dymuno sefydlu coetir o'r fath. O ganlyniad, roedd 75 y cant o'r coedwigoedd newydd a grewyd y llynedd yn ddail llydan. Nid oes gennym unrhyw dargedau penodol ar hyn o bryd, ond yr ydym wedi gwahodd sylwadau ar strategaeth goetir newydd i Gymru

### Y Cynllun Dechreuwyr Ifanc

**C28 Ieuan Wyn Jones:** Pa ddylanwad a gaiff y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar astudiaeth dichonoldeb o gynllun dechreuwyr ifanc? (OAQ3314)

**Christine Gwyther:** Trafodwyd papur o'r enw 'Cynllun Ffermwyr Newydd – Astudiaet ar Helpu Pobl i Ddechrau Ffermio', a oedd yn cynnwys cylch gwaith yr astudiaeth, disgrifiad o'r modd y trafodir yr astudiaeth, ac amserlen gweithredu arfaethedig, gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr.

### Cnydau a Addaswyd yn Enetig (Unfed Ganrif ar Hugain)

**C29 Peter Black:** Pa gamau y mae Christine Gwyther yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn wlad heb gnydau a addaswyd yn enetig yn yr unfed ganrif ar hugain? (OAQ3234)

**Christine Gwyther:** Penderfynir polisi ar ryddhau organebau a addaswyd yn enetig i'r amgylchedd gan aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Ymdrinnir â rhyddhau bwriadol yn bennaf yng nghyfarwyddeb 90/220/EEC. Wrth arfer ei bwerau, rhaid i'r Cynulliad gydymffurfio â darpariaethau cyfarwyddeb 1990 a deddfwriaeth gysylltiedig yr UE. Eglurwyd hyn yn y papur a gyflwynais i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 15 Rhagfyr y llynedd. Eglurodd y papur hwnnw pam nad wyf yn argyhoeddedig y gallai'r Cynulliad orfodi moratoriwm cyffredinol ar ryddhau cnydau a addaswyd yn enetig i'r amgylchedd yng Nghymru.

### Cynllun Dechreuwyr Ifanc (Astudiaeth Dichonoldeb)

**C30 Janet Davies:** Pa ddylanwad fydd gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn y penderfyniad ynghylch pa gorff/gyrff a benodir i gynnal yr astudiaeth dichonoldeb gwerth £50,000 ynghylch ymarferoldeb cynllun dechreuwyr ifanc? (OAQ3312)

**Christine Gwyther:** Cedwir at y gweithdrefnau arferol, fel y'u nodir yn Llawlyfr Caffael Cynulliad Cenedlaethol Cymru.